# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2 E+W

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

### PENNOD 2 E+W

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal*

**15 Termau allweddol E+W**

(1) Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol—

(a) os nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac os yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014"), a

(b) os nad yw'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.

(2) Caiff rheoliadau ragnodi categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad ydynt i gael eu trin fel pe baent yn derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf hon.

(3) Ystyr "swyddog adolygu annibynnol" yw'r swyddog a benodir o dan adran 99 o Ddeddf 2014 ar gyfer achos plentyn.

(4) Ystyr "cynllun addysg personol" yw'r cynllun sydd wedi ei gynnwys yn y cynllun gofal a chymorth a gynhelir ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal o dan adran 83(2A) o Ddeddf 2014.

(5) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 15 mewn grym ar 2.11.2020 gan O.S. 2020/1182, **rhl. 2(b)**

## 16 Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 E+W

(1) Mae adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) (cynlluniau gofal a chymorth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) Rhaid i gynllun gofal a chymorth ar gyfer plentyn gynnwys cofnod o'r trefniadau a wneir i ddiwallu anghenion y plentyn mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant ("cynllun addysg personol").

(2B) Ond nid yw is-adran (2A) yn gymwys i blentyn os yw o fewn categori o blentyn sy'n derbyn gofal a ragnodir mewn rheoliadau, nad oes cynllun addysg personol i gael ei lunio ar ei gyfer.

(2C) Os—

(a) oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) yw cynllun gofal a chymorth y plentyn yn cynnwys cynllun addysg personol,

rhaid cynnwys unrhyw gynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran 19 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn y cynllun addysg personol.

(2D) At ddibenion is-adran (2C)—

(a) ystyr "plentyn" yw plentyn nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (o fewn yr ystyr a roddir i "compulsory school age" gan adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56));

(b) mae i "anghenion dysgu ychwanegol" yr ystyr a roddir gan adran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018."

(3) Yn is-adran (3), yn lle "y cynlluniau y mae'n eu cynnal o dan yr adran hon" rhodder "gynllun gofal a chymorth".

(4) Yn is-adran (4), yn lle "cynllun", y tro cyntaf y mae'n ymddangos, rhodder "cynllun gofal a chymorth".

(5) Yn is-adran (5)—

(a) ar y dechrau, mewnosoder "Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018,";

(b) ym mharagraff (a), yn lle "cynlluniau o dan yr adran hon" rhodder "cynlluniau gofal a chymorth";

(c) ym mharagraff (b), yn lle "mae'n rhaid i gynllun eu cynnwys" rhodder "mae cynllun gofal a chymorth i'w cynnwys (gan gynnwys pa bethau y mae cynllun addysg personol i'w cynnwys)";

(d) ym mharagraff (c), yn lle "cynlluniau" rhodder "cynlluniau gofal a chymorth".

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(6) Yn is-adran (7), yn lle "cynllun o dan yr adran hon" rhodder "cynllun gofal a chymorth".

(7) Yn is-adran (8), ym mharagraff (a), yn lle "cynllun o dan yr adran hon" rhodder "cynllun gofal a chymorth".

(8) Yn is-adran (9), yn lle "gynllun a gynhelir o dan yr adran hon" rhodder "gynllun gofal a chymorth".

(9) Ar ôl is-adran (9) mewnosoder—

"(10) Mae cyfeiriadau yn is-adrannau (2A) i (9) at gynllun gofal a chymorth i'w dehongli fel cyfeiriadau at gynllun gofal a chymorth a lunnir neu a gynhelir o dan yr adran hon."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I4** A. 16 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(a)**

**I5** A. 16 mewn grym ar 1.9.2021 gan O.S. 2021/373, **ergl. 8(za)** (fel y'i mewnosodwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(5)(a))

## 17 Dyletswydd i atgyfeirio mater i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn E+W

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan—

(a) bo'n cael ei dwyn i sylw corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn sy'n derbyn gofal sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol, neu

(b) bo'n cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn y mae'n gyfrifol amdano, ond sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol arall, anghenion dysgu ychwanegol.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I7** A. 17 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(2)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I8** A. 17 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(3)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**I9** A. 17 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2**)

**I10** A. 17 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3**)

**I11** A. 17 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(c)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**I12** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(c)**, 3

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I13** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-25)
**I14** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag ergl. 1(2))
**I15** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 2, 4-18)
**I16** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(c)**, 4
**I17** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(c)**
**I18** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-22)
**I19** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21)

## 18 Dyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol E+W

(1) Pan fo'n cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol, rhaid i'r awdurdod benderfynu a oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn is-adran (2) yn gymwys.

(2) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn o dan adran 19;

(b) bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni—

(i) nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a

(ii) nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;

(c) bod y plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

(3) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol rhaid iddo hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn a swyddog adolygu annibynnol y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**
**C1** A. 18(3) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **35(1)(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I20** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**
**I21** A. 18 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(3)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))
**I22** A. 18 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(2)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I23** A. 18 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2**)

**I24** A. 18 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(c)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**I25** A. 18 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3**)

**I26** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-22)

**I27** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(c)**, 4

**I28** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(c)**

**I29** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-25)

**I30** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21)

**I31** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag ergl. 1(2))

**I32** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(c)**, 3

**I33** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 2, 4-18)

## 19 Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal E+W

(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn wedi penderfynu o dan adran 18 fod gan blentyn sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

(3) Rhaid i awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano—

- (a) ystyried a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg i'r plentyn, a
- (b) os yw'n penderfynu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, bennu yn y cynllun datblygu unigol y dylai gael ei ddarparu yn Gymraeg.

(4) Os na ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (5), rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth arall honno yn y cynllun datblygu unigol.

(5) Y mathau o ddarpariaeth yw—

- (a) lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall;
- (b) bwyd a llety.

(6) O ran y ddyletswydd yn is-adran (4)—

- (a) nid yw'n gymwys i le mewn ysgol benodol neu sefydliad arall nad yw'n ysgol a gynhelir yng Nghymru os nad yw'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol neu'r sefydliad arall yn cydsynio;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) mae'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn adrannau 55, 56(3) a 59.

(7) Pan fo awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn, rhaid i'r awdurdod—

(a) sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn y cynllun,

(b) sicrhau unrhyw ddarpariaeth arall a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag is-adran (4), ac

(c) os yw'r cynllun yn pennu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu yn Gymraeg i'r plentyn.

(8) Gweler adran 35 am ddarpariaeth ynghylch trosglwyddo dyletswyddau i gynnal cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant sydd eisoes â chynlluniau pan ydynt yn dod yn blant sy'n derbyn gofal.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C2** A. 19(7): rhoddwyd pŵer i addasu (dd.) (1.9.2021) gan 2020 c. 7, Atod. 17 para. 7(5) (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021 (O.S. 2021/861), rhlau. 1, **11(2)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I35** A. 19 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(2)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I36** A. 19 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(3)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**I37** A. 19 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3**)

**I38** A. 19 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2**)

**I39** A. 19 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(c)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**I40** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag ergl. 1(2))

**I41** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(c)**, 4

**I42** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 2, 4-18)

**I43** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(c)**, 3

**I44** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-22)

**I45** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(c)**

**I46** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-25)

**I47** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/373 by S.I. 2021/735 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/373 by S.I. 2021/938 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/516 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/516 art. 3
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/735 art. 3
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/383 by S.I. 2021/735 art. 4
- specified provision(s) coming into force by S.I. 2021/381 art. 23 (This commencement not applied to legislation.gov.uk. S.I. 2021/381 revoked (12.8.2021) by S.I. 2021/938, art. 3)
- specified provision(s) coming into force by S.I. 2021/383 art. 23 (This commencement not applied to legislation.gov.uk. S.I. 2021/383 revoked (12.8.20210) by S.I. 2021/938, art. 4)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 4(3)(ca)(cb) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(2)
- s. 5(1)(da) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(3)
- s. 65(4)(da)(db) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(5)
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1243, arts. 4-23 by S.I. 2023/932 art. 2
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1244, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 3
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/891, arts. 4-25 by S.I. 2023/932 art. 4
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/896, arts. 4-22 by S.I. 2023/932 art. 5
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/897, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 6
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) coming into force by S.I. 2022/893 art. 2(o)(xi)